**Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA1495798

Andy Roberts
Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol
Uchelgais Gogledd Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

Annwyl Andy,

24 Chwefror 2026

**Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru: Cynllun Datblygu Strategol y Cytundeb Cyflawni**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) Rheoliadau 2021**

Diolch am eich e-bost dyddiedig 11 Chwefror yn gofyn am gytundeb i'ch Cytundeb Cyflawni ar gyfer eich Cynllun Datblygu Strategol (SDP) yn dilyn cadarnhad drwy benderfyniad gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 23 Ionawr. Mae'r llythyr hwn mewn ymateb i'r cadarnhad ffurfiol o'r Cytundeb Cyflawni gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol cyfnod 2026-2051.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Strategol yn ddyletswydd statudol a roddir ar bob Cyd-bwyllgor Corfforedig yng Nghymru.  Mae cael cynllun datblygu strategol cyfredol ar waith yn sail i'r system gynllunio yng Nghymru ac yn atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i ddull datblygu sy'n seiliedig ar gynlluniau.  Mae rheoli prosiectau'n effeithiol a thystiolaeth gyfredol yn hanfodol i sicrhau bod modd paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir yn Nhabl 1 (paragraff 6.2) ac Atodiad 5 y Cytundeb Cyflawni. Mae'r amserlen hon a nodir yn y Cytundeb Cyflawni yn cyd-fynd â'r gofynion yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Strategol Drafft.

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r costau ariannol a nodwyd ar gyfer pob agwedd ar baratoi'r cynllun (paragraffau 7.2, 7.5 a 7.6) ac yn cydnabod pwysigrwydd ymrwymiad y Cyd-bwyllgor



We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

Corfforedig i sicrhau bod y cyllid hwn ar gael i baratoi'r cynllun, drwy gytundeb y Cytundeb Cyflenwi hwn. Mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd dadgyfuno'r costau cyffredinol hyn i bob Awdurdod Lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol priodol o fewn cwmpas daearyddol y Cynllun Datblygu Strategol. Nodir hefyd yr adnoddau staffio a nodwyd i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (paragraffau 7.4 a 7.7) ac ymrwymiad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ddarparu adnoddau ar gyfer y gofynion staffio, neu gyfwerth.

Prawf o 'gadernid' y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn drwy'r archwiliad yw a yw'n glynu wrth y Cytundeb Cyflenwi y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau.  Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos 'cydymffurfiaeth gyffredinol' â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru i baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Mae'r Cytundeb Cyflawni rydych chi wedi'i gyflwyno yn cynnwys dadansoddiad manwl o amseriad pob cam o'r Cynllun Datblygu Strategol (Atodiad 5) gyda dyddiad mabwysiadu dangosol ym mis Mawrth 2031.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cymhlethdod paratoi Cynllun Datblygu Strategol ac y gallai fod rhywfaint oedi o ran cyrraedd y cerrig milltir a osodir yn yr amserlen a nodir. Yn y Cytundeb Cyflawni cychwynnol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyfnod oedi o 6 mis yn briodol.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflawni rydych wedi'i gyflwyno, gallaf **gadarnhau cytundeb** â'r amserlen a nodir yn Nhabl 1, paragraff 6.2 ac Atodiad 5, fel y darperir ar ei gyfer yn Adran 60N(4) a 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 11 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

Dylai'r fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni fod ar gael i'r cyhoedd yn awr yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliad 12.

Yn gywir,

**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Chief Planner**